Iesu'n cael ei gyflwyno yn y Deml

# Simeon ac Anna



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yr wythnos hon, byddwn yn dysgu am Simeon ac Anna, a arhosodd am addewid Duw o Waredwr. Mae ein testun Beibl i'w weld yn Luc 2:22-38.

Dyma rai o'r prif bwyntiau y byddwn yn edrych arnynt:

- Mae plant yn rhodd gan Dduw,
- Mae Duw'n cadw Ei addewidion,
- Dylem wrando ar Dduw,
- Iesu yw ein Gwaredwr.

Video playlist

## Canllaw Gwers

Dechreuwch y wers yr wythnos hon drwy adolygu darnau'r Nadolig, genedigaeth Iesu ac ymweliadau gan y Bugeiliaid a 'r dynion doeth. Eglurwch i'r plant fod digwyddiad arall y mae Luc yn ei ddweud wrthym amdano'n digwydd tua 40 diwrnod ar ôl i Iesu gael ei eni , rhwng ymweliad y bugeiliaid ac ymweliad y dynion doeth.

Eglurwch fod y gyfraith Iddewig yn dweud bod angen i rieni babi newydd wneud rhai pethau arbennig i gyflwyno/neilltuo'r plentyn i Dduw a dweud diolch am y plentyn. Os gwnaethoch chi neilltuo neu fedyddio eich plentyn tra'i fod yn fabi, gallech ddangos lluniau. Atgoffwch eich plentyn eich bod yn diolch i Dduw amdanyn nhw ac yn gweddïo y bydd Ef yn gofalu amdanyn nhw ac yn eich helpu i'w dysgu am Ei ffyrdd.

Gofynnwch i'ch plentyn sut deimlad yw aros am rywbeth  Gallwch fyfyrio ar y Nadolig, gofyn iddyn nhw sut roedden nhw'n teimlo ar ôl agor yr anrhegion  Meddyliwch am rai darnau o'r Hen Destament sy'n dangos bod Duw bob amser yn cadw ei addewidion. Eglurwch weithiau mae Duw yn ateb ein gweddïau'n gyflym, weithiau mewn wythnosau, misoedd, neu flynyddoedd ond mae bob amser yn ateb yn berffaith ac yn cadw Ei addewidion.

Rhannwch sut yr addawodd Duw i Simeon na fyddai'n marw nes iddo weld y Meseia a gyda'i lygaid ei hun. Dywedwch sut nad ydym yn gwybod pa mor hir y bu'n rhaid iddo aros, er ein bod yn gwybod ei fod yn ymddiried yn Nuw i gadw Ei addewid.

Eglurwch i'ch plentyn i'r Ysbryd Glân ddweud wrth Simeon i fynd i'r Deml.  Efallai bod Simeon wedi bod yn brysur iawn yn gwneud pethau, ond fe ufuddhadd i Dduw a mynd i'r Deml. Rhannwch sut mae'n bwysig i ni wrando ar Dduw ac ufuddhau i'r hyn y mae'n dweud wrthym ei wneud.

Darllenwch Luc 2:30. Eglurwch bod Simeon, cyn gynted ag y gwelodd Iesu ,yn gwybod mai Ef oedd y Gwaredwr.

Cyflwynwch Anna. Eglurwch bod gwraig yn y Deml y diwrnod hwnnw. Roedd hi'n 84 oed ac yn cael ei hadnabod fel proffwydes. Dywedwch sut roedd hi wrth ei bodd yn bod yn y Deml, yn Nhŷ Duw. Roedd hi'n gweddïo ac yn ymprydio yno ddydd a nos. Rhannwch sut y gwelodd  hi Iesu hefyd a chydnabod mai Ef oedd y Gwaredwr.

Myfyriwch ar sut yr ymatebodd Simeon ac Anna wrth gwrdd â Iesu. Atgoffwch eich plentyn fod Iesu'n dal i fod eisiau i ni gwrdd ag ef a'i gydnabod fel Gwaredwr.

Meddyliwch sut y bu'n rhaid i Simeon ac Anna aros am Iesu ond ddim yn gwybod pryd y byddai'n dod. Atgoffwch eich plentyn fod Iesu wedi addo y bydd yn dod eto ac er nad ydym yn gwybod pryd, rhaid i ni fod yn barod pan fydd yn dod.

Gweddïwch gyda'ch gilydd, gan ddiolch i Dduw am gadw Ei addewidion bob amser ac anfon Iesu i'n hachub.

© 2022 truewaykids.com



Gwelodd Simeon ac Anna Iesu ac roedden nhw'n gwybod mai Ef oedd y Gwaredwr addawyd gan Dduw.
Roedd Mair a Joseff yn rhyfeddu.
Bendithiodd Simeon hwy a siaradodd â Mair a Joseff am ddyfodol Iesu.
Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig iawn. Roedd yr arhosiad hir am Waredwr wedi dod i ben.






Roedd Mair a Joseff yn caru Duw ac eisiau ufuddhau Iddo.

Pan oedd Iesu'n ddeugain diwrnod oed, teithion nhw o Fethlehem i'r Deml yn Jerwsalem i'w gysegru i Dduw.

Roedden nhw'n gwybod bod Iesu'n rhodd gan Dduw.



Yn y Deml roedd  dyn o'r enw Simeon.

Un diwrnod pan oedd Simeon yn iau, dywedodd Duw wrtho na fyddai'n marw nes iddo weld y Meseia.

Pan welodd Simeon Iesu, fe'i daliodd yn ei freichiau a dechreuodd ganmol Duw.  Dywedodd: "Dw i wedi gweld yr Achubwr gyda fy llygaid fy hun."





Roedd person arall yn y Deml y diwrnod hwnnw.  Anna oedd ei henw.

Roedd Anna yn 84 oed ac yn weddw. Roedd hi wrth ei bodd yn y Deml yn gweddïo ac yn ymprydio ddydd a nos. Proffwydes oedd Anna.

Cyn gynted ag y gwelodd Iesu, diolchodd i Dduw am anfon y Gwaredwr.

# Gêṃau a Gweithgareddau

## Rwy’n  gallu gweld...

Mae ‘Dw i’n gallu gweld’ yn gêm hawdd i'w chwarae unrhyw le. Os yw eich plentyn yn dysgu adnabod llythrennau, gallwch chwarae "Rwy'n gallu gweld rhywbeth sy'n dechrau gyda ‘r llythyren....”. Os yw eich plentyn yn iau, chwaraewch gan ddefnyddio lliwiau.

Siaradwch am y pethau rydyn ni'n eu gweld. Siaradwch am sefyllfaoedd lle gallwn weld Duw yn y gwaith yn ein bywydau a bywydau pobl eraill.





## Delweddau amwys

Chwiliwch am rai delweddau amwys ar-lein. Lluniau ydyn nhw sy'n dangos dwy ddelwedd fel un. Rhai o'r enwocaf yw'r canhwyllau/cwpl yn cusanu, hwyaden/cwningen.
Gofynnwch i'ch plentyn beth maen nhw'n ei weld ac yna dangoswch y delweddau eraill iddyn nhw.
Siaradwch am sut y gwelodd rhai pobl yn y deml fabi yn unig, ond gwelodd Simeon ac Anna y Gwaredwr. Eglurwch sut y dylem weld Iesu fel ein Gwaredwr.

## **Cynllunydd blwyddyn**

Eisteddwch i lawr ac ysgrifennwch rai dyddiadau pwysig mewn calendr. Penblwyddi, Nadolig, Gwyliau, ac ati. Cyfrifwch sawl diwrnod, wythnos neu fis y bydd yn rhaid i chi aros tan y digwyddiad.
Myfyriwch ar sut y bu'n rhaid i Simeon ac Anna aros, ond heb wybod am ba hyd y byddai’n rhaid iddynt aros.




© 2022 truewaykids.com

# Llygaid pwy yw'r rhain?





















© 2022 truewaykids.com

# Rwy'n gweld rhywbeth ...

Rwy'n gweld rhywbeth coch ________________

Rwy'n gweld rhywbeth Glas ________________

Rwy'n gweld rhywbeth Gwyrdd ________________

Rwy'n gweld rhywbeth Oren ________________

Rwy'n gweld rhywbeth Du ________________

Rwy'n gweld rhywbeth Pinc ________________

© 2022 truewaykids.com

## 01 - Ionawr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

## 02 - Chwefror

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | | | |

## 03 - Mawrth

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |

## 04 - Ebrill

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | | | | | |

## 05 - Mai

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

## 06 - Mehefin

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |

## 07 - Gorffennaf

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

## 08 - Awst

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

## 09 - Medi

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | | | | | | |

## 10 - Hydref

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

## 11 - Tachwedd

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | |

## 12 - Rhagfyr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | 31 | | | | | |

# Torrwch allan y misoedd a 'u gludo mewn trefn


01 - Ionawr
1 2 3 4 5 6 / 7 8 9 10 11 12 13 / 14 15 16 17 18 19 20 / 21 22 23 24 25 26 27 / 28 29 30 31

02 - Chwefror
1 2 3 / 4 5 6 7 8 9 10 / 11 12 13 14 15 16 17 / 18 19 20 21 22 23 24 / 25 26 27 28

03 - Mawrth
1 2 / 4 5 6 7 8 9 10 / 11 12 13 14 15 16 17 / 18 19 20 21 22 23 24 / 25 26 27 28 29 30 31

04 - Ebrill
1 2 3 4 5 6 7 / 8 9 10 11 12 13 14 / 15 16 17 18 19 20 21 / 22 23 24 25 26 27 28 / 29 30

05 - Mai
1 2 3 4 5 / 6 7 8 9 10 11 12 / 13 14 15 16 17 18 19 / 20 21 22 23 24 25 26 / 27 28 29 30 31

06 - Mehefin
1 2 / 3 4 5 6 7 8 9 / 10 11 12 13 14 15 16 / 17 18 19 20 21 22 23 / 24 25 26 27 28 29 30

07 - Gorffennaf
1 2 3 4 5 6 7 / 8 9 10 11 12 13 14 / 15 16 17 18 19 20 21 / 22 23 24 25 26 27 28 / 29 30 31

08 - Awst
1 2 3 4 / 5 6 7 8 9 10 11 / 12 13 14 15 16 17 18 / 19 20 21 22 23 24 25 / 26 27 28 29 30 31

09 - Medi
1 / 2 3 4 5 6 7 8 / 9 10 11 12 13 14 15 / 16 17 18 19 20 21 22 / 23 24 25 26 27 28 29 / 30

10 - Hydref
1 2 3 4 5 6 / 7 8 9 10 11 12 13 / 14 15 16 17 18 19 20 / 21 22 23 24 25 26 27 / 28 29 30 31

11 - Tachwedd
1 2 3 / 4 5 6 7 8 9 10 / 11 12 13 14 15 16 17 / 18 19 20 21 22 23 24 / 25 26 27 28 29 30

12 - Rhagfyr
1 / 2 3 4 5 6 7 8 / 9 10 11 12 13 14 15 / 16 17 18 19 20 21 22 / 23 24 25 26 27 28 29 / 30 31


© 2022 truewaykids.com

# Gwydrau Adnodau i'w Cofio




## Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Templed ar gerdyn gwyn

Pensiliau lliwio

Siswrn

Glud

## Beth i'w wneud:



Oedolyn: Torrwch y templed a'r tyllau ar gyfer llygaid.



Lliwiwch y gwydrau.



Gludwch y breichiau i'r gwydrau.

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Addoli

Argymhellwch ganeuon addoli. Heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.Gellir defnyddio Fideos YouTube at ddefnydd personol yn unig.



Simeon ac Anna - Truewaykids

https://youtu.be/9qlHqo9wB4g

God Always Keeps His Promises

https://youtu.be/WzrFkvn1LGg

Jesus Savior of the World

https://youtu.be/KFMw0B2ukUw



# Gweddi

Diolchwch i Dduw am anfon Iesu fel ein Gwaredwr. Gofynnwch i Dduw eich helpu i'w weld ar waith bob dydd.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ymddiried yn Ei addewidion.

# Wythnos nesaf

## Iesu fel bachgen yn y Deml

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch i dderbyn gwers yn y dyfodol drwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com